# Ysgariad neu Ddiddymu Partneriaeth Sifil

Ebrill 2025



Local Government Pension Scheme

Cronfa Bensiwn DYFED Pension Fund

Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council

## Contents

Cyflwyniad ........ 2
Beth yw Gorchymyn Rhannu Pensiwn? ........ 2
Beth yw Gorchymyn Clustnodi Pensiwn? ........ 2
Beth os ydych chi eisoes yn derbyn pensiwn CPLlL? ........ 2
Beth yw'r broses? ........ 2
Beth sy'n digwydd i'ch pensiwn CPLlL ar ôl i'ch ysgariad neu ddiddymiad gael ei gwblhau? ........ 3
Beth os ydych chi'n ail-briodi neu'n ymuno â phartneriaeth sifil newydd? ........ 4
Beth sy'n digwydd i gredyd pensiwn eich cyn briod / partner sifil? ........ 4
Pryd allwch chi ddisgwyl derbyn GAC eich hawliau pensiwn? ........ 5
Ble allwch chi ddod o hyd i ragor o Wybodaeth? ........ 5
Ymwadiad ........ 5

## Cyflwyniad

Os byddwch yn ysgaru neu os yw eich partneriaeth sifil wedi'i diddymu, fe all effeithio ar eich pensiwn yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLlL). Byddwn yn gofyn i chi ddatgan eich buddion ariannol, a fydd yn cynnwys eich pensiwn o dan y CPLlL. Yna bydd y Llys yn ystyried y pensiwn hwn wrth benderfynu ar unrhyw setliad i'ch cyn briod neu gynbartner sifil.

Felly bydd angen i chi a'ch cyn briod / partner sifil ddweud wrth y Llys beth yw gwerth unrhyw bensiynau sydd gennych (ar wahân i'r Pensiwn Gwlad). Gallwch wedyn gytuno sut y dylid rhannu unrhyw bensiynau a bydd y Llys yn cyhoeddi naill ai **Gorchymyn Rhannu Pensiwn** neu **Orchymyn Clustnodi Pensiwn** i gadarnhau'r setliad.

## Beth yw Gorchymyn Rhannu Pensiwn?

Mae Gorchymyn Rhannu Pensiwn yn drefniant sy'n rhannu'ch pensiwn pan fyddwch yn ysgaru neu pan fydd eich partneriaeth sifil wedi'i diddymu, fel bod eich cyn briod neu gynbartner sifil yn cael rhan o'ch pensiwn.

## Beth yw Gorchymyn Clustnodi Pensiwn?

Mae Gorchymyn Clustnodi yn drefniant lle telir rhan o bensiwn un person i'r cyn briod neu gynbartner sifil pan delir y pensiwn hwnnw. Gall hyn fod naill ai ar ffurf lwmp swm neu yn rhan o'ch pensiwn blynyddol. Yna bydd y taliad hwn yn dod i ben pan fyddwch chi'n marw neu os bydd eich cyn briod neu gynbartner sifil yn ailbriodi neu'n ymuno â phartneriaeth sifil newydd.


## Beth os ydych chi eisoes yn derbyn pensiwn CPLlL?

Os ydych chi eisoes yn cael eich pensiwn CPLlL, dim ond cyfran o'ch pensiwn blynyddol y bydd eich cyn briod neu gynbartner sifil yn ei dderbyn ac ni fyddant yn cael y dewis o lwmp swm arian parod di-dreth.

## Beth yw'r broses?

Bydd angen gwybodaeth benodol arnoch am eich buddion CPLlL fel rhan o'r drefn ysgaru neu ddiddymu partneriaeth sifil. Mae'r wybodaeth hon yn cynnwys amcangyfrif o **Werth Arian Cyfwerth** (GAC) eich pensiwn.

Mae'r siart a ganlyn yn dangos sut y bydd y broses yn gweithio.




Bydd y Gronfa Bensiwn yn darparu GAC i chi cyn pen 3 mis o ddyddiad eich cais, neu'n gynt os yw ar gyfer dyddiad Llys. Os ydych eisoes wedi derbyn GAC am ddim o fewn 12 mis o ddyddiad y cais, efallai y bydd cost.

Bydd y Gorchymyn Rhannu Pensiwn neu Orchymyn Clustnodi yn nodi cyfran y pensiwn sydd i'w rannu neu ei glustnodi. Bydd Gorchymyn Rhannu Pensiwn hefyd yn dangos o ba ddyddiad y mae'n effeithiol.

Bydd angen i chi a'ch cyn briod neu bartner sifil dalu'r tâl am weithredu'r Gorchymyn cyn y gall y Gronfa Bensiwn wneud hynny.

** Gallwch gael rhagor o wybodaeth am y taliadau am gyflenwi gwybodaeth ar gyfer neu weithredu Gorchymyn Llys gan y Gronfa Bensiwn.*

## Beth sy'n digwydd i'ch pensiwn CPLlL ar ôl i'ch ysgariad neu ddiddymiad gael ei gwblhau?

- Ni fydd gan eich cyn briod neu bartner sifil hawl i bensiwn goroeswr mwyach os byddwch chi'n marw o'u blaenau.
- Ni fydd unrhyw effaith ar bensiwn goroeswr a delir i unrhyw blant cymwys pan fyddwch yn marw.
- Bydd unrhyw lwmp swm grant marwolaeth sydd i'w dalu pan fyddwch chi'n marw yn cael ei dalu i bwy bynnag rydych chi wedi'i nodi ar eich ffurflen enwebiad Grant Marwolaeth. Os bydd angen i chi newid hyn ar ôl i'ch ysgariad neu diddymiad gael ei gwblhau, dylech lenwi ffurflen enwebiad Grant Marwolaeth newydd (oni bai bod y

llys wedi cyhoeddi Gorchymyn Clustnodi sy'n nodi y dylid talu'r cyfan, neu ran o'r lwmp swm grant marwolaeth, i'ch cynbartner neu gynbartner sifil os byddwch chi'n marw o'u blaenau).
- Mae'n bosib y bydd eich cyn briod neu gynbartner sifil yn cael credyd pensiwn yn y CPLlL, a fydd ar wahân i'ch pensiwn.

## Beth os ydych chi'n ail-briodi neu'n ymuno â phartneriaeth sifil newydd?

Os gweithredir Gorchymyn Rhannu Pensiwn yn erbyn eich pensiwn CPLlL, bydd unrhyw bensiwn goroeswyr a delir i briod, partner sifil neu bartner cyd-fyw cymwys hefyd yn lleihau, pe byddech chi'n marw o'u blaenau.

Os dymunwch, cewch lenwi ffurflen enwebiad Grant Marwolaeth newydd i newid unrhyw fuddiolwyr blaenorol ar y pwynt hwn.  Gallwch fynd i wefan y Gronfa Bensiwn i lawrlwytho'r ffurflen hon.

## Beth sy'n digwydd i gredyd pensiwn eich cyn briod / partner sifil?

Ar ôl gweithredu unrhyw Orchymyn Rhannu Pensiwn neu Orchymyn Clustnodi, mae'n bosib y bydd / fe fydd credyd pensiwn yn cael ei ddyfarnu i'ch cyn briod neu gynbartner sifil.  Mae hwn yn bensiwn a ddyfernir yn benodol iddyn nhw yn y CPLlL, yn unol â'r debyd i'ch pensiwn. Nodwch fod hwn wedyn ar wahân i'ch buddion.

Byddant yn gallu dewis:

- Derbyn y taliadau credyd pensiwn o 55 oed gyda gostyngiadau yn seiliedig ar reolau cyfredol y CPLlL; neu
- Ddechrau derbyn eu credyd pensiwn ar eu hoedran pensiwn arferol (OPA), sydd o dan reolau cyfredol y CPLlL, yr un fath â'u Hoedran Pensiwn y Wladwriaeth, ond fe allai newid yn y dyfodol.

Mae modd talu'r credyd pensiwn yn gynharach hefyd ar sail gwaeledd neu os yw eich cyn briod neu gynbartner sifil yn dewis trosglwyddo eu credyd pensiwn i drefniant pensiwn arall.

## Pryd allwch chi ddisgwyl derbyn GAC eich hawliau pensiwn?

Ar ôl i chi wneud y cais, dylech ddisgwyl derbyn y GAC cyn pen **3 mis**. Efallai y bydd oedi gan fod angen gwybodaeth weithiau gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi (CThEM) a gan eich Cyflogwr. Dim ond ar ôl derbyn y wybodaeth hon all y Gronfa Bensiwn gyfrifo'r GAC.

**Cofiwch os gwelwch yn dda y gallai fod cost am ddarparu GAC i chi. Bydd y Gronfa Bensiwn yn cadarnhau hyn**.

## Ble allwch chi ddod o hyd i ragor o Wybodaeth?

Mae'r ffeithlen hon yn rhoi arweiniad cyffredinol yn unig, os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch, cysylltwch â'r Gronfa Bensiwn.

## Ymwadiad

Ni all y Gronfa Bensiwn ddarparu unrhyw gyngor ariannol. Ar ôl darllen y ffeithlen hon, efallai yr hoffech gael cyngor ariannol annibynnol er mwyn gwneud penderfyniad deallus.

Gallai'r cyrff hyn eich helpu chi:

Unbiased: https://unbiased.co.uk/ Gwasanaeth Cyngor Arian: https://www.moneyadviceservice.org.uk/cy/articles/choosing-a-financialadviser